



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

<b>TEITL</b>	<b>Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>22 Tachwedd 2018</b>
<b>GAN</b>	<b>Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip</b>

**Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (“y Rheoliadau”)**

**Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio**

Bydd y rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Weinidogion Cymru mewn perthynas â rhai safonau ansawdd a diogelwch a gofynion technegol yn ymwneud â chasglu, profi, prosesu, storio a dosbarthu gwaed a chydannau gwaed. Nid oes effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydysniad yn golygu swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gallai hyn, felly, fod yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn ymwneud ag Ansawdd a Diogelwch Gwaed.

Mae rheoliad 13 yn diwygio Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005 i fewnosod adran newydd ynghylch darpariaethau mewn perthynas â phennu safonau a gofynion mewn perthynas â gwaed a chydannau gwaed sy'n cael eu casglu a'u profi at ddibenion trallwysu awtologaid gan gynnwys sefydlu safonau a manylebau am system ansawdd i'w chyflawni gan sefydliad gwaed; safonau ansawdd a diogelwch ar gyfer casglu, profi, prosesu, storio a

dosbarthu gwaed a chhydrannau gwaed; gofynion olrhain; hysbysu adweithiau a digwyddiadau andwyol difrifol eraill; ac amrywiol ofynion technegol eraill.

Mae'r rheoliad newydd yn datgan y caiff yr awdurdod priodol wneud darpariaethau yn y meysydd hyn trwy reoliadau. Diffinnir yr awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru fel Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chydysniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma:

<http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111174814/contents>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.